# HUGHES, HUGH (1693 - 1776; 'Huw ap Huw' neu 'Y Bardd Coch o Fôn'), bardd ac uchelwr

**Enw:** Hugh Hughes
**Ffugenw:** Huw ap Huw, Y Bardd Coch O Fôn
**Dyddiad geni:** 1693
**Dyddiad marw:** 1776
**Priod:** Ann Hughes (née Jones)
**Rhiant:** Margaret ferch David ap William Parry
**Rhiant:** Hugh Hughes
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd ac uchelwr
**Maes gweithgaredd:** Perchnogaeth Tir; Barddoniaeth; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
**Awdur:** Rhiannon Francis Roberts

O Lwydiarth Esgob ym mhlwyf Llandyfrydog, aelod gohebol o Gymdeithas y Cymmrodorion, ac un o gyfeillion y Morysiaid. Yn ôl J. E. Griffith, mab ydoedd i Hugh Hughes a Margaret, merch David ap William Parry o Fiwmares, barcer, a ganwyd ef 1 Awst 1693. Tua 1719 priododd Ann, merch Edward Jones o Rydyrarian, a ganwyd iddynt amryw o blant; bu hi farw ddechrau 1759. Rai blynyddoedd cyn diwedd ei oes symudodd o Lwydiarth Esgob i Fynydd y Gof Du, Caergybi, ac yng Nghaergybi y bu farw, 6 Mai 1776. Yno hefyd y claddwyd ef. Y mae ei ewyllys ar gael.

Ceir peth o'i farddoniaeth yn ei law ef ei hun yn Wynnstay MS 8 . Cyhoeddwyd '*Casgliad o Ganiadau o waith Huw Huws*' (yn cynnwys ei Gywydd Annerch i Goronwy Owen a Chywydd Ateb enwog y bardd hwnnw) gyda gwaith Goronwy Owen a Lewis Morris yn *Diddanwch teuluaidd* Huw Jones o Langwm, 1763, ac ymddangosodd '*Caniadau Defosionol*' [*sic*] o'i eiddo yn y mesurau rhyddion mewn llyfryn o'r enw *Diddanwch, iw Feddiannydd* (Dublin, 1773). Ceir cywydd arall yn *Dewisol Ganiadau yr Oes Hon*, 1759, a charol plygain yn *Blodeu-gerdd Cymry*, 1759. Cyfieithodd ddau os nad tri llyfr i'r Gymraeg, sef *Deial Ahaz, wedi ei Hysprydoli* (Caerfyrddin, 1773), cyfieithiad o lyfr gan David Tucker, a *Rheolau Bywyd Dynol* (Dulun, 1774), cyfieithiad o lyfr Robert Dodsley, *The Oeconomy of Human Life*; rhestrir '*Deddfau Moesoldeb Naturiol. Wedi ei gyfieithu gan Hugh ab Hugh*,' 1773, yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, ond nid ymddengys fod copi ar gael heddiw. Argraffwyd llythyrau ato ac oddi wrtho yn *Cymm.*, xlix.

## Awdur

**Rhiannon Francis Roberts**, (1923 - 1990)

## Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 101

J. H. Davies (gol.), *The Letters of Lewis, Richard, William, and John Morris, of Anglesey, (Morrisiaid MÃ´n) 1728-1765* (1907â€“9), cyf. I, cyf. II

*Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, ii, 32

*Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum in the years 1841â€“1845* (London 1850), 1841-5

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Hugh Hughes

## Gweithiau

David Tucker, Peter Williams (gol.), Hugh Hughes (cyf.), *Deial Ahaz, wedi ei hysprydoli* (Caerfyrddin 1773)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 44166158

Wikidata: Q13129169

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

**Arddull APA**

×

Roberts, R. F., (1953). HUGHES, HUGH (1693 - 1776; 'Huw ap Huw' neu 'Y Bardd Coch o Fôn'), bardd ac uchelwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HUGH-HUG-1693

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu